**From:** **edwvalleydesigns** info@edwvalleydesigns.co.uk
**Subject:** Fwd: Costau byw: Help i deuluoedd gyda phlant! I Cost-of-living: Help for families with children!
**Date:** 30 September 2022 at 23:30
**To:**

# Costau byw: Help i deuluoedd gyda phlant!

Os ydych chi'n cael trafferth gyda chostau byw ac ar incwm isel, a oeddech chi'n gwybod y gallech chi gael help i dalu am brydau ysgol eich plentyn?

Mae hyn yn berthnasol i bob dysgwr mewn addysg llawn amser, a gallech arbed hyd at £400 y flwyddyn ar gyfer pob plentyn oed ysgol gynradd, helpu ysgol eich plentyn i elwa ar gyllid ychwanegol a'ch helpu chithau i fod yn gymwys i gael mathau eraill o gymorth.

Oherwydd y dull talu a ddefnyddir yn ysgolion Powys, ni fydd disgyblion eraill yn gwybod bod eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim.

- Prydau ysgol am ddim:https://cy.powys.gov.uk/article/11909/Prydau-Ysgol-am-Ddim

Yn ogystal â hyn, bydd prydau ysgol am ddim yn cael eu cynnig i holl ddisgyblion ysgolion cynradd Cymru erbyn mis Medi 2024. Bydd hyn yn berthnasol i'r plant ieuengaf yn gyntaf, sy'n golygu y bydd pob plentyn yn y dosbarth Derbynym Mhowys yn eu derbyn o ddechrau tymor yr hydref ym mis Medi 2022, a'r rheiny ym mlynyddoedd 1 a 2 yn eu derbyn ddim hwyrach na dechrau tymor yr haf, ym mis Ebrill 2023.

Os ydych chi ar incwm isel, parhewch i hawlio am brydau ysgol am ddim trwy wefan Cyngor Sir Powys (CSP)https://cy.powys.gov.uk/article/11909/Prydau-Ysgol-am-Ddimoherwydd gallech hefyd fod â hawl i gefnogaeth arall megis grant Mynediad (sef y Grant Datblygu Disgyblion) PDG am wisg a dillad ysgol arall.

Mae'r ffenestr ymgeisio am grantiau dillad ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd mis Medi 2022 hyd at fis Mehefin 2023 bellach ar agor. Os ydych chi'n gymwys i dderbyn y grant, dylech fod wedi derbyn llythyr gan CSP gyda rhif/rhifau disgybl i'w defnyddio.

Gall rhieni plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd wneud cais am grant Mynediad PDG (a elwir weithiau yn Grant Gwisg ysgol), ac y gellir ei ddefnyddio i helpu gyda chostau ysgol megis gwisg ysgol ac offer. Eleni, swm y grant yw £225 i bob dysgwr neu £300 i'r rhai sy'n dechrau blwyddyn 7 (£100 yn fwy nag y mae fel arfer).

- Grantiau dillad ysgol a grant Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion (PDG):https://cy.powys.gov.uk/article/11908/Grantiau-dillad-ysgolion

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth i rieni plant cymwys tair a phedair oed am 48 wythnos y flwyddyn. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymrwymiad presennol, sy'n rhoi o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth addysg gynnar i bob plentyn tair a phedair oed a adwaenir fel Meithrin Cyfnod Sylfaen.

- Cynnig Gofal Plant i Gymru a chymorth arall tuag at dalu am ofal plant:http://www.gwybodaethgofalplant.cymru/fis/W06000023

Gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Powys hefyd roi arweiniad ar help ariannol gyda chostau gofal plant: www.gwybodaethgofal plant.cymru/fis/W06000023 Ffôn: 01597 826058 neu e-bost: fis@powys.gov.uk

Mae cynhyrchion mislif hefyd ar gael i ddysgwyr, i'w casglu am ddim, ym mhob ysgol ym Mhowys, naill ai o swyddfa'r ysgol, aelod staff dynodedig neu beiriant gwerthu heb arian parod (ysgolion uwchradd yn unig). I gael mwy o wybodaeth am gymorth urddas mislif i ddisgyblion yn ysgolion Powys, anfonwch e-bost at: education@powys.gov.uk

Mae rhagor o gyngor am gymorth gyda chostau byw hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/cael-help-gyda-chostau-byw

**Jane Thomas**

Pennaeth Cyllid

# Cost-of-living: Help for families with children!

If you are struggling with the cost-of-living and are on a low income, did you know that you could get help to pay for your child's school meals?

This applies to all learners in full time education and could save you up to £400 a year for each primary school age child, help your child's school benefit from extra funding and help you qualify for other support and assistance.

Due to the payment method used in Powys schools, other pupils will not know that your child is receiving free school meals.

- Free school meals:https://en.powys.gov.uk/article/11906/Free-school-meals

In addition, free school meals are to be extended to all primary school pupils in Wales by September 2024. This will apply to the youngest children first, meaning that in Powys all children in Reception will receive them from the start of the autumn term, in September 2022, while those in years 1 and 2 will receive them no later than the start of the summer term, in April 2023.

If you are on a low income, please continue to claim for free school meals via the Powys County Council (PCC) websitehttps://en.powys.gov.uk/article/11906/Free-school-meals as you may also be entitled to other support such as the PDG Access grant for uniform and other school clothing.

The application window for school clothing grants, for the academic year September 2022 to June 2023, is now open. If you are eligible, you should have received a letter from PCC with a pupil reference number/numbers to use.

Parents of children, who are eligible for free school meals, may also be able to apply for a PDG Access grant (sometimes called the Uniform Grant), which can be used to help with school costs such as uniforms and equipment. This year the grant is £225 per learner or £300 for those entering year 7 (£100 more than it usually is).

- School clothing grants and Pupils Development Grant (PDG) Access:https://en.powys.gov.uk/article/11907/School-clothing-grants

The Childcare Offer for Wales provides up to 30 hours of government-funded early education and childcare to eligible working parents of three- and four-year-olds for 48 weeks of the year. This builds on the existing commitment, which provides all three- and four-year-olds with a minimum of 10 hours per week of early education provision known as Foundation Phase Nursery.

- Childcare Offer for Wales and other help towards paying for childcare:https://gov.wales/help-paying-childcare

Powys Family Information Service can also provide guidance on financial help with childcare costs:http://www.childcareinformation.wales/fis/W06000023Phone: 01597 826058 or email: fis@powys.gov.uk

Period products are also available for learners, to collect for free, in all Powys schools, either from the school office, a designated staff member or a coin-free vending machine (secondary schools only). For more information on period dignity support for pupils in Powys schools, email: education@powys.gov.uk

Further advice on help with the cost-of-living is also available on the Welsh Government's website:https://gov.wales/get-help-cost-living

**Jane Thomas**

Head of Finance

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.

CRYFACH ~tecach~ | STRONGER ~fairer~

Powys GWYRDDACH | GREENER

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.